PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 2 EBRILL 2019

Yn bresennol: Aelodau Annibynnol: Ian Arundale (Cadeirydd)
Gavin McArthur, David Price a/ac David Hugh Thomas
Councillors Bale, Goddard, Howells, McGarry, Walker a/ac Williams

83 : PENODI AELODAU NEWYDD

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y Cyngor ar 28 Chwefror 2019 wedi penodi’r Cynghorwyr Goddard a Williams i'r Pwyllgor.

84 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Cunnah a Singh.

85 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

86 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 fel cofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Materion Gweithredol

87 : Y PRIF WEITHREDWR - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR AMGYLCHEDD RHEOLI'R CYNGOR

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Weithredwr ar Amgylchedd Rheoli'r Cyngor.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Paul Orders, Prif Weithredwr; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Davina Fiore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol a'r Swyddog Monitro a Gavin Macho, Prif Reolwr Brys; i'r cyfarfod.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau y byddai'n cymryd cwestiynau ar unrhyw faes perthnasol o amgylchedd rheoli'r Cyngor, ond y byddai fel arall yn canolbwyntio'r cyflwyniad a'r sicrwydd o ran 'Brexit', a 'monitro'r gyllideb' fel meysydd a nodwyd fel o ddiddordeb i’r Pwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ehangach am dargedau a heriau corfforaethol o ran lleihau risg, sicrwydd gan uwch reolwyr ar lywodraethu, a sicrwydd archwilio mewnol.

Amlinellodd y Prif Weithredwr fod swyddogion arweiniol mewn lle ym mhob cyfarwyddiaeth i gydlynu'r ymateb Brexit, gyda blaenoriaeth gyntaf yn cael ei rhoi i ddeall risgiau cyflenwi gwasanaethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cyfarwyddiaethau wedi adolygu risgiau Brexit, wedi ymgysylltu â chyflenwyr a chadwyni cyflenwi, ac wedi rhoi sicrwydd bod yr holl risgiau hysbys wedi cael eu hystyried a bod mesurau lliniaru priodol mewn lle. Rhoddodd y Prif Weithredwr

enghreifftiau o risgiau'r gadwyn gyflenwi a sut y cawsant eu rheoli, ac yna amlinellodd y trefniadau gorchymyn, rheoli a chyfathrebu cenedlaethol sydd ar waith, a'r mecanweithiau i gefnogi cydlyniant cymunedol.

Daeth y cyflwyniad i ben gan ganolbwyntio ar gyfathrebu. Rhoddwyd gwybodaeth am y Cynllun Sefydlogi Dinasyddion, a chafwyd cymorth drwy'r Hyb Gwybodaeth ar wefan y Cyngor, cymorth cyfleusterau mynediad digidol mewn llyfrgelloedd, a chyfathrebu â'r Aelodau a'r Staff. Darparwyd gwybodaeth hefyd am y cymorth a roddir i fusnesau ac i Aelodau.

Gwahoddwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd i roi sylwadau, ceisio sicrwydd neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- O ran cadwyni cyflenwi, gofynnodd aelod a oedd contractwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU wedi'u nodi fel dewisiadau amgen. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yn rhaid i'r awdurdod ystyried unrhyw amhariad posibl ar y newid yn y cyflenwad a bod ganddo drefniadau eraill ar waith gan gynnwys defnyddio cyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU. Darparwyd enghraifft o fagiau gwastraff bwyd bio-pydradwy, y nodwyd cyflenwr amgen ar eu cyfer sy'n gallu darparu cyflenwadau o fewn 10 diwrnod.

- Dywedodd Aelod mai lefel gyfyngedig o wybodaeth a roddwyd i Gynghorwyr. Dywedodd y Prif Weithredwr fod ansicrwydd Brexit wedi effeithio ar y trefniadau cynllunio. Yn ystod y misoedd diwethaf roedd gwaith wedi mynd yn ei blaen oherwydd yr angen am fwy o liniaru.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y rheolaethau mewnol sydd ar waith a gofynnodd a oedd y Prif Weithredwr yn hyderus bod gan ei Gyfarwyddwyr reolaeth ar orwariant. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn disgwyl i gyfarwyddwyr weithio o fewn eu dyraniad cyllideb. Dywedodd nad oedd yn fodlon â'r sefyllfa alldro, ond roedd yn cydnabod bod rhai meysydd gwasanaeth yn agored i alw eithriadol. Byddai'r Uwch Dîm Rheoli yn gwneud ymyriadau lle y bo angen i sicrhau bod sefyllfa gytbwys yn cael ei chyflawni. Roedd hwn yn ddarn allweddol o waith ar gyfer y Swyddog Adran 151 newydd. Roedd yr Uwch Dîm Rheoli yn fwy seiliedig ar ddata ac yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau. Nododd y Prif Weithredwr fod ganddo hyder llwyr yn y rheolaeth sydd ar waith ond nid yw'n dymuno bychanu'r heriau sydd o'i flaen.

- O ran rheoli a lliniaru'r risgiau o Brexit, gofynnodd yr Aelodau faint a ddyrannwyd i waith lliniaru penodol. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw ddyraniad cyllideb penodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi neilltuo cronfa drosiannol. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gynllun cymorth ymfudo ôl-Brexit.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Prif Weithredwr wedi ystyried pa mor ddigonol yw'r cyfathrebu â'r staff a'r cwsmeriaid. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y negeseuon allweddol wedi bod ar natur agored a chroesawgar y ddinas, ac i ddarparu cymorth mewn perthynas â Chynllun

Sefydlogi’r UE. Nododd Aelod y gwaith a wnaed gan y GIG i ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion ac roedd yn teimlo y byddai pobl sy'n agored i niwed yn y ddinas hefyd yn elwa o ymgysylltu rhagweithiol tebyg. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cymorth ar gael i ddarparwyr gofal sydd â niferoedd uchel o staff yr UE. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn, er bod llawer iawn o gyfathrebu wedi digwydd, fod mwy i'w wneud o hyd.

- Gofynnodd Aelod pa lefel o brofion straen sy'n cael eu cynnal o amgylch y senario bod Brexit yn sbarduno dirwasgiad a'r effaith 'ganlyniadol' ar arbedion yn y gyllideb a gwydnwch. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Uwch Dîm Rheoli wedi trafod amrywiaeth o senarios posibl yn seiliedig ar ragfynegiadau Banc Lloegr. Rhagwelir y byddai'r effaith economaidd yn debyg i ddymchweliad 2007-09, lle byddai taliadau caledi gwasanaethau rhyngweithio yn cael eu rhoi ar waith, a lle mae capasiti i addasu adnoddau i ddelio â senarios lle mae pethau'n waeth.

- Gofynnodd yr Aelodau pa fecanweithiau oedd yn eu lle i herio neu adolygu digonolrwydd y mesurau lliniaru. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Uwch Dîm Rheoli/Cyfarwyddwyr yn darparu her ar y cyd. Mae’r Tîm Rheoli Brys yn derbyn holl ffurflenni lliniaru’r Cyfarwyddiaethau ac mae cydweithwyr o fewn Archwilio yn adolygu’r prosesau o ran sicrwydd.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi’r adroddiad;

(2) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, drwy'r Rheolwr Archwilio, yn diolch i'r Prif Weithredwr am ei bresenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a’i sicrwydd manwl, gan groesawu cyfathrebu parhaus i hysbysu'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi a goruchwylio.

## 88 : ANDREW GREGORY - Y DIWEDDARAF YNGHYLCH RHEOLI GWASTRAFF

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad mewn ymateb i'w gais am ddiweddariad ar yr amgylchedd rheoli ym maes Rheoli Gwastraff. Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr a Matt Wakelam, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r cyfarfod i roi'r cyflwyniad.

Cynghorwyd yr Aelodau, mewn perthynas ag ymchwilio i weithgarwch troseddol posibl o fewn Rheoli Gwastraff, na fyddai'n briodol datgelu unrhyw fanylion penodol tra bod yr ymchwiliad yn parhau. Roedd y diweddariad yn canolbwyntio ar sicrwydd rheoli, rheolaethau mewnol a rheoli risg o fewn Rheoli Gwastraff. Nodwyd crynodeb o'r rheolaethau a'r prosesau mewnol o fewn Rheoli Gwastraff yn y cyflwyniad.

Roedd y Cyfarwyddwr yn cydnabod y bu bylchau yn y rheolaeth o fewn y gwasanaeth Rheoli Gwastraff, tra'n cynghori y creffir yn fanwl ar y swyddogaeth gan roi gwybodaeth yn aml i'r Cabinet a'r Prif Weithredwr. Cafodd bylchau mewn cydweithio a chyfathrebu o fewn Gwastraff eu hamlygu fel meysydd o anhawster, ac

roedd chwalu seilos a chael dealltwriaeth glir a chywirdeb data ar draws y gwasanaeth yn cael eu nodi fel blaenoriaethau.

Agorodd y Cadeirydd ddadl ar yr eitem hon. Crynhoir sylwadau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Roedd Aelod o'r farn bod Rheoli Gwastraff yn hanesyddol wedi goddef cynhyrchiant isel a lefelau uchel o salwch ac roedd tasg fawr o'n blaenau i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â sut yr eir i'r afael â hyn tra'n osgoi unrhyw risg o weithredu diwydiannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr eu bod yn gweithio gydag undebau llafur, sy'n cydnabod bod angen newid.

- Gan gyfeirio at yr ymchwiliad ym maes Rheoli Gwastraff, gofynnodd Aelod pa gamau a gymerwyd i wella llywodraethu. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau a bod y broses ddisgyblu wedi dechrau. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd disgwyl i gost yr ymchwiliad i Reoli Gwastraff gael ei gwmpasu gan bolisïau yswiriant corfforaethol.

- Nododd aelod fod gan Gaerdydd y cyfraddau ailgylchu isaf yng Nghymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cyfradd ailgylchu Caerdydd yn 64%, nad oes yr un ardal drefol arall yng Nghymru yn perfformio'n well na Chaerdydd, ac o'i chymharu â dinasoedd eraill yn y DU, mae Caerdydd yn un o'r perfformwyr gorau.

- Gofynnodd un Aelod a oedd y staff yn gyffyrddus â chwblhau'r arolwg staff yn onest, ac a oedd dod ag arolygon annibynnol i mewn wedi cael ei ystyried mewn perthynas â materion megis iechyd a diogelwch. Dywedodd y Cyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol eu bod yn treulio mwy o amser yn Ffordd Lamby, a'u bod yn gweithio gyda'r Rheolwr Gweithredol, Iechyd a Diogelwch i ddatblygu iechyd a diogelwch fel mater o welliant.

- Gofynnodd Aelod faint o staff yn y maes a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau oedd gwladolion yr UE. Cytunodd y Cyfarwyddwr i ddarparu manylion, a gwybodaeth am liniaru'r ddarpariaeth o wasanaethau.

- Gofynnodd y Cadeirydd, unwaith y bydd gweithdrefnau disgyblu wedi'u cwblhau o fewn y gwasanaeth Rheoli Gwastraff, i'r Pwyllgor Archwilio gael ei hysbysu o'r cylch gorchwyl a'r dull gweithredu ar gyfer cyflawni adolygiadau ôl-ymchwiliad.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi’r adroddiad;

(2) Wrth ystyried effaith Brexit ar y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff, bod y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn darparu manylion am nifer gwladolion yr UE sy'n gweithio i'r gwasanaeth ac yn darparu cyflenwadau allweddol iddo, a sut y mae'r risgiau o ran darparu gwasanaethau yn cael eu

lliniaru.

(3) Unwaith y bydd y trefniadau disgyblu wedi'u cwblhau o fewn y gwasanaeth Rheoli Gwastraff, bod y Pwyllgor Archwilio yn cael ei hysbysu am y cylch gorchwyl a'r dull gweithredu ar gyfer cyflawni'r Adolygiad Ymchwiliad i'r Swydd cysylltiedig.

Cyllid

89 : DIWEDDARIAD CYLLIDEB GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddwyd adroddiad i’r Pwyllgor a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cabinet wedi ystyried Adroddiad Monitro Mis 9 ar 21 Chwefror 2019. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o gyllideb 2019/20, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019, a manylion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi derbyn adroddiadau'r Cabinet er gwybodaeth pan gawsant eu cyhoeddi.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid wrth yr Aelodau y bydd priodoldeb yr adroddiad diweddariad ariannol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor. Wrth ymateb i sylwadau gan Aelod am lefel y manylder a'r iaith yn yr adroddiad ar y gyllideb, cytunodd y Pennaeth Cyllid, gan ddweud nad yw'n teimlo bod gwerth o ran crynhoi gwybodaeth adroddiad y Cabinet mewn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau roi sylwadau ar rybuddion ei ragflaenwr mewn perthynas â gwariant cyfalaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai ei farn gyffredinol yn cael ei ffurfio drwy ei waith yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd yr awdurdod yn gweithredu o fewn terfynau darbodus.

PENDERFYNWYD – nodi'r wybodaeth ariannol am sefyllfa fonitro 2018/19, canlyniad cyllideb 2019/20 a’r sefyllfa tymor canolig.

90 : POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMSERLENNI AR GYFER DATGANIAD CYFRIFON 2018-19

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd wedi'i baratoi i roi'r amserlenni arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y datganiadau ariannol 2018/19, y polisïau cyfrifyddu drafft sy’n sail i’r datganiad cyfrifon a gwybodaeth ehangach am y newidiadau a ddisgwylir o God CIPFA. Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfalaf, Corfforaeth a’r Trysorlys.

Roedd Aelod o'r farn gellid dangos trafodion o natur fasnachol yn fanylach yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod trafodion cryno yn cael eu darparu, a bod dolenni i gyfrifon manwl y cwmnïau perthnasol/cyfrifon y Cydbwyllgor yn cael eu cynnwys yn nodiadau'r cyfrifon ar gyfer gwybodaeth i'r defnyddiwr a chyfeiriadu.

Roedd Aelod o'r farn bod angen mwy o eglurder ar y diffyg pensiwn, ac roedd o'r farn bod cyfrifon Rhondda Cynon Taf yn arbennig o glir yn hyn o beth, gan fod y diffyg

pensiwn yn cael ei ddangos ar y cyd â dyledion. Croesawodd swyddogion yr adborth a chytunwyd i ystyried y sylwadau hynny.

Gofynnodd Aelod a oes gan yr awdurdod bolisi cyfrifo ar lwyddiant neu fethiant cyflawni targedau arbedion. Cynghorodd y Pennaeth Cyllid fod yr Uwch Ddatganiadau Sicrwydd Rheoli yn asesu pob cyfarwyddiaeth yn erbyn 23 ardal, ac mae un ohonynt yn ymwneud â chyrraedd targedau arbedion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ei gwneud yn glir mai ef sy'n gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod prosesau ar waith i helpu i gyflawni targedau arbedion, ac mae'n rôl y mae'n ei chymryd o ddifrif.

Gofynnodd Aelod a roddwyd unrhyw ystyriaeth i gynyddu cyfraniadau'r cyflogai neu'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn, ac fe'u cynghorwyd bod lefelau cyfraniadau cyflogeion yn cael eu gosod yn genedlaethol. Gofynnwyd i Aelodau nodi bod Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn ehangach na staff Llywodraeth Leol yn unig.

Gofynnodd Aelod a oedd y Rheolwr Gweithredol yn gyfforddus â'r polisi ar ddibrisiant, gan fod amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag oed a chyflwr adeiladau, a gellid defnyddio gwerthu eiddo i helpu i leihau'r diffyg pensiwn. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gan yr awdurdod darged derbyn cyfalaf. Hysbyswyd yr Aelodau bod gan asedau brisiad cyfrifo, ac er bod dibrisiant yn bwysig, ystyrir bod yn rhaid i'r awdurdod fesur materion megis – a ydym yn defnyddio asedau'n effeithiol? A oes cynllun asedau ar waith? A allwn gael gwared ar yr ased?

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi:

(1) Yr amserlenni ar gyfer y cyfrifon 2018/19;

(2) Y polisïau a'r tybiaethau cyfrifyddu drafft sydd i'w defnyddio wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon ar gyfer 2018/19;

(3) Y newidiadau allweddol yn y Cod Ymarfer ar gyfer 2018/19, a newidiadau yn y tymor canolig.

Llywodraethiant a Rheoli Risg
91 : DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLLB) DRAFFT 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2018-19. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y ddogfen wedi'i pharatoi cyn diwedd y flwyddyn ac felly roedd nifer o ychwanegiadau i ddilyn yn y fersiwn nesaf, sef datganiadau sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli, y Rheolwr Archwilio a'r Pwyllgor Archwilio. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r DLIB drafft a gwblhawyd yn cael ei ailgyflwyno i'w ystyried ymhellach a gwahoddwyd yr Aelodau i roi eu sylwadau.

Roedd Aelod o'r farn bod Iechyd a Diogelwch yn fater allweddol i'r sefydliad ond ni chafodd ei gynnwys yn y DLIB. Gofynnodd yr Aelod a oedd unrhyw gynigion i gryfhau proffil y grŵp cynghori Iechyd a Diogelwch. Dywedodd y Pennaeth Cyllid y byddai papur briffio yn cael ei baratoi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn, ac y byddai'r DLIB yn cael ei ddiweddaru er mwyn cipio'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD – Mewn perthynas â'r Grŵp Cynghori ar Iechyd a Diogelwch:

(1) Bod y Pwyllgor Archwilio yn cael briff, i amlinellu'r cylch gorchwyl presennol ac unrhyw ddatblygiad posibl yn ei rôl i herio a goruchwylio llywodraethu da;

(2) Bod swyddogion yn dogfennu ei rôl yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2018/19.

92 : RHEOLI RISG CORFFORAETHOL – (CHWARTER 3)

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran rheoli risg yn Chwarter 3 2018/19 gan y Pennaeth Cyllid a'r Prif Swyddog Rheoli Risg.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi tri risg gorfforaethol sy'n cael eu targedu ar gyfer lleihau risg yn Chwarter 4 2018/19 - Gwydnwch Ariannol, Monitro Cyllidebau (Rheoli) a Chynnal a Chadw Adeiladau Statudol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y disgwylir i'r risgiau o ran Gwydnwch Ariannol a Monitro Cyllidebau gael eu lleihau i'w sgoriau targed C2 (canolig) ar ôl cymeradwyo'r gyllideb 2019/20 a'r alldro cytbwys a nodwyd ar gyfer 2018/19. O ran Cynnal a Chadw Adeiladau Statudol., mae'r perchennog risg wedi adrodd bod targed Chwarter 4 ar gyfer lleihau'r risg i D3 (canolig) ar y trywydd iawn i'w gyflawni.

Gofynnodd un Aelod pam mai'r unig risg gorfforaethol a restrwyd heb berchennog arweiniol oedd 'Brexit'. Cynghorodd y Pennaeth Cyllid fod gan y risg hon gydgyfrifoldeb corfforaethol a'r Cabinet, ond cytunodd y byddai'r egwyddor hon yn cael ei hadlewyrchu.

Roedd Aelod o'r farn bod nifer fawr o risgiau wedi'u graddio'n 'goch', gan gynnwys monitro'r gyllideb, a nododd Aelod arall fod pwysau cyllidebol ar fenthyciadau, diffygion a chronfeydd wrth gefn yn cynnwys nifer o risgiau corfforaethol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y nifer uchel o risgiau gradd 'coch' yn adlewyrchu meysydd pryder yr awdurdod lle mae angen rhoi sylw i flaenoriaeth. Nododd y Pennaeth Cyllid fod adroddiad y gyllideb 2019/20 yn nodi'r risgiau ariannol yn fanwl ac yn rhoi cyd-destun pellach.

Gwnaeth Aelod sylw ar ddefnyddio taenlenni i gyflwyno'r data naratif a gofynnodd a ellid ystyried meddalwedd rheoli risg pwrpasol. Cydnabu'r Pennaeth Cyllid y pryderon hynny a derbyniodd yr angen i archwilio opsiynau eraill. Codwyd sylwadau hefyd am lefel y manylder, sydd angen ei ddiweddaru'n gyson yn y gofrestr risg gorfforaethol, a chynghorodd y Pennaeth Cyllid y bydd cyfleoedd yn cael eu hystyried i ddefnyddio'r gofrestr risg gorfforaethol i gyfeirio at fanylion, yn hytrach nag ailddatgan gwybodaeth fanwl.

Nododd aelod fod y Cyngor ar 28 Mawrth 2019 wedi datgan 'argyfwng hinsawdd' ac awgrymodd y dylid adlewyrchu hyn yn y gofrestr risg gorfforaethol, gan fod disgwyl i'r awdurdod weithredu.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

93 : CYNLLUN GWEITHREDU / ADBORTH HUNAN-ASESIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio ganlyniadau gweithdy hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio, a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 gan ddefnyddio canllawiau arferion gorau CIPFA. Cafodd Aelodau hefyd Gynllun Gweithredu drafft y Pwyllgor Archwilio i dargedu meysydd ar gyfer cynnydd / gwelliant.

Cynghorwyd y Pwyllgor Archwilio bod yr hunanasesiad wedi nodi safbwynt cyffredinol cadarnhaol o'r adolygiadau o arfer da ac effeithiolrwydd ac roedd o'r farn bod y camau a nodwyd yn flaenorol wedi cael eu datblygu'n ddigonol.

Roedd asesiad ychwanegol o wybodaeth a sgiliau craidd Aelodau unigol o'r Pwyllgor Archwilio wedi nodi perfformiad unigol cryf ym mhob maes craidd, ac wedi nodi rhai meysydd hyfforddi lle roedd gwybodaeth a sgiliau cyfunol yn is. Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio y byddai'r sesiwn hyfforddi gyntaf ar 'Reolaeth y Trysorlys' yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio ar y canlyniadau hunanasesu a'r Cynllun Gweithredu.

PENDERFYNWYD – i gymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio

Swyddfa Archwilio Cymru
94 : CYNLLUN ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019

Cyflwynodd Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a chydweithwyr Cynllun Archwilio Blynyddol 2019. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a nodir yn Arddangosyn 2 o'r Cynllun a'r rhaglen o archwiliadau a nodir yn Arddangosyn 3. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod gostyngiad bach wedi bod yn y costau i'r awdurdod ac y bydd SAC yn chwilio am ragor o arbedion effeithlonrwydd a fydd, os cânt eu cyflwyno am gost is, yn arwain at ad-daliad.

Gofynnodd Aelod sut a ble y caiff Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei harchwilio a sut y byddai'n cael ei hadrodd. Hysbyswyd yr Aelodau bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfrifoldeb ac mae cynllun ar wahân ar waith i gyflwyno adroddiad i'r Cyd-Gabinet.

Gofynnodd Aelod a fyddai'n bosibl i SAC gylchredeg adroddiadau archwilio yn ehangach. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod SAC yn gweithio yn y maes cyhoeddus a bod adroddiadau ar gael ar eu gwefan. Mater i swyddogion y Cyngor hefyd yw dosbarthu unrhyw adroddiadau archwilio i bwyllgorau craffu ac aelodau perthnasol.

Croesawodd yr Aelodau y dull newydd o archwilio perfformiad y cyfeiriwyd ato yn y Cynllun Archwilio. Gofynnodd yr Aelodau pa effeithiau cadarnhaol yr oedd SAC yn ceisio'u cael yn sgil y dull newydd hwn. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gobeithir y byddai SAC yn rhoi mwy o gymorth, yn helpu i wella gwasanaethau, yn darparu mwy o sylwebaeth a gwerth ychwanegol. Awgrymwyd y gallai SAC chwarae rhan fwy gweithgar yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio drwy ryngweithio gyda'r trafodaethau yn ystod eitemau ar yr agenda. Dywedodd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Archwilio Ariannol y gall SAC roi cyfle i gwrdd ag aelodau'r Pwyllgor cyn dechrau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

Nododd yr Aelodau fod nifer o'r archwiliadau perfformiad o'r cynllun 2018/19 dal ar y gweill. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Archwilio Ariannol fod peth gwaith

yn mynd rhagddo a dywedodd nad oedd unrhyw oedi oherwydd rhesymau'n ymwneud â'r Cyngor.

Gan gyfeirio at yr ymchwiliad parhaus i faterion ym maes Rheoli Gwastraff, gofynnodd Aelod a fyddai SAC yn edrych ar sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i'r ymchwiliad. Dywedodd Phil Pugh, Rheolwr Archwilio Ariannol, bod SAC yn ystyried y risg o dwyll fel rhan o'u gweithdrefnau cynllunio. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod SAC yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad ac am hyd a lled unrhyw afreoleidd-dra ariannol. Defnyddir y wybodaeth hon fel rhan o'r broses asesu risg pan fydd SAC yn asesu meysydd i edrych arnynt a bydd Rheoli Gwastraff yn cael ei ystyried yn 2019/20.

PENDERFYNWYD – bod Cynllun Archwilio Blynyddol 2019 yn cael ei nodi.

95 : CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN CAERDYDD A’R FRO

Cyflwynodd Phil Pugh, Rheolwr Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, Gynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro 2019. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod dau faes diddordeb penodol, sef prisio buddsoddiadau ecwiti preifat a'r ffaith nad yw Caerdydd wedi trosglwyddo buddsoddiadau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru Gyfan.

PENDERFYNWYD – y dylid nodi cynllun archwilio Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro 2019.

96 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Cyflwynodd Sara-Jane Byrne, Rheolwr Archwilio Perfformiad, adroddiad gweithgarwch a diweddariad cynnydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Ailadroddodd Aelod bwynt a wnaed eisoes ei bod yn bwysig cyflwyno gwybodaeth i Aelodau gan fod llai o adroddiadau Cabinet yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ac felly mai cyfyngedig oedd y cyfle i holi swyddogion. Roedd Aelodau eraill o'r farn ei bod yn ddyletswydd ar gyrff i wneud eu gwaith olrhain eu hunain a holwyd lle mae adroddiadau SAC yn mynd o fewn y Cyngor.

Cynghorodd y Rheolwr Archwilio fod y Tîm Polisi a Pherfformiad Corfforaethol yn olrhain yr argymhellion a godwyd drwy adroddiadau a diweddariadau ar gynnydd SAC. Dywedwyd wrth yr Aelodau yr anfonir rhybuddion o adroddiadau SAC at reolwyr allweddol yn y sefydliad ar gyfer eu priod feysydd gwaith. O ran busnes y Pwyllgor Archwilio, mae'r Rheolwr Archwilio a'r Cadeirydd ill dau ar y rhestr ddosbarthu, ac yn ceisio cylchredeg adroddiadau i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y pwyllgorau.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

Rheoli’r Trysorlys

97 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a’r Trysorlys ar y wybodaeth am berfformiad a datganiad sefyllfa ar Reolaeth y Trysorlys fel oedd ar 28 Chwefror 2019.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod £4 miliwn ychwanegol o fenthyca allanol wedi'i gynnal ers yr adroddiad diwethaf.  Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd nodi bod y Cyngor yn dal i aros am gadarnhad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu terfyn benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai, a ddisgwylir erbyn 31 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

98 : ARFERION RHEOLI’R TRYSORLYS

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a’r Trysorlys ar yr Arferion Rheoli’r Trysorlys arfaethedig sydd i fod yn gymwys o Ebrill 2019 .  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r prif newidiadau yn y fersiwn ddiweddaraf oedd diweddariadau i'r geiriad a'r dyddiadau pan oedd hynny'n berthnasol; newidiadau staffio a diweddariadau i Strategaeth Reoli’r Trysorlys. Roedd yr arferion hefyd wedi cael eu diweddaru i gynnwys y dull o ymdrin â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai'r Trysorlys megis eiddo masnachol.  Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y byddai buddsoddiadau o'r fath yn cael eu rheoli y tu allan i weithgarwch arferol y Trysorlys e.e. gan Swyddogaeth Ystadau Strategol y Cyngor yn unol â strategaeth a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2016.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

Archwiliad Mewnol

99 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Archwiliad Mewnol fel oedd ar 15 Mawrth 2019.  Rhoddodd y Rheolwr Archwilio amlinelliad o'r gwaith o gyflawni'r archwiliad a chanfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad mewn perthynas â'r cyfnod adrodd. Wrth grynhoi'r gwaith o gyflawni'r archwiliad, dymunai'r Rheolwr Archwilio gofnodi ei ddiolchgarwch i'r Tîm Archwilio Mewnol am eu perfformiad cryf yn y chwarter olaf, er mwyn darparu 77% o'r cynllun archwilio, sef y ddarpariaeth uchaf mewn rhai blynyddoedd. Amlinellwyd canfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad i'r Pwyllgor Archwilio gan roi amlygrwydd i'r canfyddiadau critigol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, y crynodeb gweithredol ar gyfer dau archwiliad anfoddhaol a gwblhawyd ers yr adroddiad cynnydd diwethaf, a statws yr argymhellion archwilio a godwyd.

Mynegodd Aelod bryder am archwiliad a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Pontprennau lle tynnwyd sylw at nifer o bryderon, a gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i ddileu awdurdod y Corff Llywodraethu.  Cynghorodd y Rheolwr Archwilio fod y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi ymgysylltu'n dda â'r archwiliad a'i ganfyddiadau, ac o ran y mecanwaith llywodraethu i fonitro a rheoli meysydd lle mae angen gwella ysgolion, bydd y Pwyllgor Archwilio gael y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth wedi derbyn holl argymhellion yr adroddiad, a'u bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.  Dywedodd yr Aelod nad oedd ganddo unrhyw syniad bod gan yr ysgol faterion o bryder a gofynnodd pryd y byddai Cynghorydd lleol yn cael ei

hysbysu. Nododd y Cadeirydd y pwyntiau a godwyd ynghylch cysylltu ag aelodau lleol, ond roedd o'r farn nad oedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Archwilio fynd ar ei drywydd.

Nododd Aelod fod adroddiad drafft ar y prosiect Bwyd Ieuenctid wedi'i gyhoeddi. Gofynnodd yr Aelod a oedd yr adroddiad wedi ystyried gwerth am arian ac a oedd y prosiect yn cyflawni ei ganlyniadau. Cynghorodd y Rheolwr Archwilio fod yr archwiliad yn canolbwyntio ar y systemau ariannol a oedd ar waith, fel gweithrediad newydd, a oedd yn gofyn am sicrwydd oddi wrth y Swyddog Adran 151.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

## 100 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu diweddariad ar waith Tîm Ymchwilio'r Adran Archwilio fel oedd ar 15 Mawrth 20149.

Yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw at ddatblygiad y Dtrategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth. Dywedwyd wrth yr Aelodau, unwaith i'r Uwch Dîm Rheoli gytuno yn yr ychydig wythnosau nesaf, y byddai'r Strategaeth ddrafft yn cael ei dosbarthu cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, lle y bwriedir ei hystyried ar 25 Mehefin.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

## 101 : SIARTER ARCHWILIO A'R CYNLLUN ARCHWILIO 2019-20

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr adroddiad ac atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi cael y Siarter Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio 2019/20 drafft ar 22 Ionawr 2019 i'w ystyried a rhoi sylwadau. Roedd yr adroddiad pellach hwn yn rhoi manylion am fân ychwanegiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol 2019/20. Yn benodol, canolbwyntiodd yr ychwanegiadau hyn ar Nodyn Cais Llywodraeth Leol CIPFA, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod y Cynllun Archwilio wedi'i ddatblygu ymhellach ers iddo gael ei ddarparu ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr, ac fe'i cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor yn dilyn trafodaethau ag uwch reolwyr.

Croesawodd yr Aelodau yr archwiliad o Foeseg a Gwerthoedd, gan fod diddordeb mewn sicrwydd ar roddion a lletygarwch a datganiadau o fuddiant. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai angen unrhyw addasiad ar y Siarter i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ynghylch cyfathrebu ag aelodau lleol. Cynghorodd y Rheolwr Archwilio fod y Siarter Archwilio yn dilyn arferion proffesiynol gorau, gan IIA a CIPFA, ac roeddent o'r farn y byddai unrhyw gyfathrebu ehangach ar allbynnau archwilio yn fater i'r cleientiaid sy'n derbyn yr Adroddiadau Archwilio ac uwch swyddogion.

PENDERFYNWYD – bod y Siarter Archwilio Mewnol a'r Cylch Gorchwyl 2019/20 a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20 yn cael eu cymeradwyo.

102 : GOHEBIAETH CRAFFU (GWEITHGAREDD Y PWYLLGOR CRAFFU)

Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod gohebiaeth ysgrifenedig y Cadeirydd wedi'i chyhoeddi ar wefan y cyngor ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a chyfeiriwyd yr Aelodau at y tudalennau perthnasol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am wybodaeth ynghylch defnyddio cytundebau peidio â datgelu ac y byddai'r ymateb yn cael ei rannu ag Aelodau'r Pwyllgor maes o law.

103 : CAMAU GWEITHREDU HEB EU CWBLHAU

Nodwyd y camau a oedd heb eu cymryd.

104 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith y Pwyllgor.

105 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

106 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn digwydd ar 25 Mehefin 2019 (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor blynyddol ar 23 Mai 2019)

107 : GOHEBIAETH YN DILYN Y CYFARFOD PWYLLGOR

The meeting terminated at 5.00 pm